

SHAKESPEARE LIVES MEWN

YSGOLION

20 O WEITHGAREDDAU
AR GYFER DIWRNOD
SHAKESPEARE LIVES
MEWN YSGOLION

www.shakespearelives.org




CYFLWYNIAD

Pa bynnag weithgaredd y byddwch chi'n ei ddewis ar Ddiwrnod Shakespeare Lives mewn Ysgolion, dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n nodi'r diwrnod yn eich ysgol chi drwy anfon llun, e-bost neu glip ffilm am yr hyn yr ydych chi'n ei wneud i ddathlu'r digwyddiad arbennig hwn. Gallwch gysylltu â ni ar y cyfryngau cymdeithasol @Schools_On_Line gan ddefnyddio #ShakespeareLives neu drwy e-bostio shakespearelives@britishcouncil.org



1. Gofynnwch i staff a disgyblion ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o ddrama Shakespeare. Gallant fod yn dylwyth teg neu Bottom wedi'i drawsnewid gyda phen asyn o'r ddrama **A Midsummer Night's Dream**, gwrach neu ysbryd Banquo o **Macbeth**, Julius Cesar neu Cleopatra, neu ddod fel Shakespeare ei hun.
2. Defnyddiwch y templed masg Shakespeare yn y pecyn hwn i orffen eich gwisg. Argraffwch, torrwch a lliwiwch y masg a gosod eich hun mewn ystum ar gyfer hunanlun Shakespeare arbennig a'i ddangos i'r byd drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol #ShakespeareLives.
3. Defnyddio ein gwasanaeth Shakespeare i osod sylfaen i'r diwrnod.
4. Ymgorfforwch yr ymarfer ganlynol o'r Pecyn Shakespeare Lives mewn Ysgolion yn y wers.

Rhowch y disgyblion mewn grwpiau bach i greu lluniau llonydd o gymeriadau neu linellau allweddol o un o'r dramâu. Gellir hyn fod ar ffurf cerfluniau o: 'Brenin a'i ddeiliaid,' 'cyfarfod y tair gwrach'; neu gallwch bortreadu llinellau enwog o'r dramâu megis 'y ddau gariad anffodus' neu 'Gyfeillion, Rhufeiniaid, gwladwyr, dyro i mi eich clustiau.' Tynnwch luniau a rhannu'r canlyniadau.



Torrwch y masg Shakespeare allan, ei
liwio a'i roi ar ffon i orffen eich gwisg



5. Ceisiwch gyfarwyddo golygfa o **A Midsummer Night's Dream** gan ddefnyddio'r platform digidol Mix the Play. Gall eich disgyblion arbrofi gydag actorion, dulliau o actio, sefyllfaoedd, gwisgoedd a cherddoriaeth wahanol. Ceisiwch greu fersiynau gwahanol nes bod y disgyblion yn hapus gyda'u dewis. Pan fydd eich disgyblion wedi dewis, gallant rannu eu golygfa gyda phartner ac esbonio'r penderfyniadau y maent wedi eu gwneud a/neu rannu eu canlyniadau ar gyfryngau cymdeithasol.
6. Mae nifer o'r geiriau a'r ymadroddion yng ngwaith Shakespeare yn dal i gael eu defnyddio heddiw. Copiwch a thorrwch enghreifftiau o rai idiomau poblogaidd Shakespeare sydd ar y daflen adnodd, yn yr adran hunaniaeth a Chydraddoldeb o'r Pecyn Shakespeare Lives mewn Ysgolion. Rhowch yr idiomau mewn i amlenni a chynnal cystadleuaeth i weld pa grwpiau sydd yn gallu paru dechrau a diwedd yr ymadroddion enwog yn yr amser cyflymaf.
7. Ble bynnag yr ydych chi yn y byd, gwylwch **A Midsummer Night's Dream** o Shakesperare's Globe ar y BBC. Dyma gynhyrchiad cyntaf erioed i gael ei rhaeadru'n fyw ledled y byd o'r Globe.
8. Rydym yn ailddweud tri o ddramâu mwyaf eiconig y Bardd drwy lygaid Instagram! Bydd yr addasiadau modern sydd wedi'u lleoli lleoli yn Ewrop yn ysbrydoli ac yn diddori. Gallwch ddilyn y storiâu hyd yn hyn ar Instagram. Dilynwch @britishcouncileurope i'w gweld yn datblygu mewn amser real. Pam na wnewch chi lunio drama eich hun ar Instagram?



©SHAKESPEARE
SCHOOLS FESTIVAL





©SHAKESPEARE
SCHOOLS FESTIVAL



9. Ymgorfforwch yr ymarfer ganlynol o'r Pecyn Shakespeare Lives mewn Ysgolion yn y wers.
Trafodwch nodweddion a chymhelliannau cymeriad o ddrama Shakespeare yr ydych wedi astudio. Tynnwch lun o gwmpas aelodau'r dosbarth a chreu fersiynau gludwaith mawr o'r cymeriadau yma gyda llinellau allweddol o'r ddrama wedi'u hysgrifennu o'u cwmpas. Gallwch hefyd greu bywgraffiad ar eu cyfer sydd yn dal hanfod eu personoliaeth a'u gweithredoedd mewn 140 cymeriad neu lai.
10. Gwylwch blant yn perfformio ac yn canu 'Full Fathom Five' neu 'Hey Ho' ar wefan y World Voice. Mae'r cyfansoddwr Paul Burrell wedi cyfansoddi cerddoriaeth i gyd-fynd a'r caneuon yma o **The Tempest** ac **As You Like It**. Ceisiwch gyd-ganu ac yna perfformio un o'r caneuon.
11. Arbrofwch gyda synau a'r rhythmau iaith Shakespeare. Ymarferwch rhai rhythmau galw ac ateb drwy guro'r dwylo a'r traed a gofynnwch i'r disgyblion guro eu dwylo a'u traed i rythm y mesur moel - Di Dum Di Dum Di Dum Di Dum Di Dum (deg curiad). Cadwch y rhythm i fynd tra'ch bod yn darllen enghreifftiau byr o waith Shakespeare gyda'ch gilydd megis; araith enwog Portia am 'ansawdd trugaredd' o Act 4 Golygfa 1 **The Merchant of Venice** neu Brolog **Romeo and Juliet**.
12. Gwylwch ail-ddychmygiad SBTV o'r **Twelfth Night** a chynnal trafodaeth dosbarth am bwy yw 'Shakespeare' yr oes bresennol?




13. Ceisiwch greu golygfa mewn bocsweddi hysbrydoli gan un o destunau Shakespeare. Darparwch rhai enghreifftiau o destun atgofus Shakespeare, bocswys bach, deunyddiau gludwaith, cerdyn a lluniau o gylchgronau. Gofynnwch i'r disgyblion ddewis lluniau a gwadedd a gorchuddio cefn y bocsweddag un o'r rhain i greu cefndir.
14. Rhannwch y cardiau dyfyniadau canlynol gyda'ch disgyblion. Ceisiwch adrodd y dyfyniadau mewn gwahanol ffyrdd. Gallech dro sibrwd, cloncian, neu weiddi'n uchel. Casglwch ddyfyniadau Shakespeare eraill gan athrawon, eu teuluoedd, ac ysgolion partner. Gallwch recordio'r rhain yn ddigidol neu eu hysgrifennu neu eu darlunio i wneud llyfr o ddyfyniadau Shakespeare ar gyfer llyfrgell yr ysgol.
15. Rhannwch gopïau o bapurau newydd cenedlaethol a lleol. Gofynnwch i'ch disgyblion i geisio dod o hyd i storiâu newyddion cyfoes sydd yn trin a thrafod materion megis arweinyddiaeth a grym, teulu a chydberthnasau, cyfiawnder a rheolau y byddai Shakespeare wedi archwilio yn ei waith 400 mlynedd yn ôl.
16. Roedd Shakespeare yn aml yn defnyddio ymsonau i alluogi ei gymeriadau fynegi pob mathau o emosiynau ac amcanion ac i roi cipolwg o feddyliau dwfn a phreifat y cymeriadau i'r gynulleidfa. Efallai'r llinell agoriadol fwyaf adnabyddus yw 'To be or not to be' o **Hamlet**. Heriwch y grwpiau i weithio gyda'i gilydd i greu ymson mewn iaith fodern ble mae cymeriad o ddrama Shakespeare y maent yn nabod yn dda yn dangos eu meddyliau a'u teimladau am eu sefyllfa ac yn datgelu'r hyn yr hoffent ei ddweud a'i wneud.





17. Gwylwch ffilm yr actor o Dde Affrica John Kani sydd yn adrodd ei brofiadau o chwarae **Othello** yn Ne Affrica yn ystod Apartheid neu Dame Evelyn Glennie ac yn dangos nad yw byddardod yn rhwystro pobl rhag clywed **The Tempest**. Lawrlwythwch a darllenwch wyth traethawd cyfatebol ar Shakespeare gan brif ffigyrau diwylliannol a gwleidyddol ar draws y byd yma.
18. Yn ystod bywyd gwaith Shakespeare, roedd tylwythau teg ac ysbrydion yn cael eu hystyried yn beryglus a hyd yn cynrychioli grymoedd anweledig yn y gwyllt. Dyluniwch a chreu creadur hudol Shakespearaid eich hun. Rhowch enw i'r cymeriad, a dewiswch bŵer arbennig a a chyfrinach ar ar ei gyfer! Gallwch hefyd ddefnyddio toes chwarae, clai, deunyddiau wedi'u hailgylchu neu ddarnau adeiladu. Cymerwch luniau o'ch creaduriaid a defnyddio cyfrifiadur os ar gael i greu cefndir diddorol o'r ddrama y mae eich cymeriad yn ymddangos ynddi. Gallwch hefyd ddefnyddio technegau fferru i ail-greu'r olygfa fel gwaith wedi'i animeiddio gydag effeithiau sain a dyfyniadau o'r ddrama.
19. Ceisiwch greu 'sainlun' drwy daro'r corff ac offerynnau cerddorol i gyd-fynd a golygfa ddramatig o ddrama Shakespeare megis y gwrachod ar y rhos yn **Macbeth** neu'r storm yn The **Tempest**.
20. Cofiwch, ysgrifennu ar gyfer llwyfan a wnaeth Shakespeare - mae ei ddramâu wedi'u bwriadu i gael eu perfformio a'u rhannu â chynulleidfa. Rhannwch berfformiad o olygfa, araith, neu berfformiad wedi'i hysbrydoli gan Shakespeare ar gyfer eich ysgol a'ch cymuned. Mae llawer o enghreifftiau o areithiau y gellir eu defnyddio yn y Pecyn Shakespeare Lives mewn Ysgolion.



JOHN KANI
© ANTHEA DAVISON



EVELYN GLENNIE
© PHILIPP RATHMER